



The Open University  
Y Brifysgol Agored

## **Y Brifysgol Agored**

### **Cynllun Iaith Gymraeg**

#### **Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993**

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol Agored gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14(1) o'r Ddeddf ar 10 Ebrill 2003. Archwiliwyd a diwygiwyd y Cynllun, a hwn yw ei olynnydd. Cafodd y cynllun presennol gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2010.

Mae'r Brifysgol Agored wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Brifysgol Agored yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Oni nodir fel arall, gweithredir pob ymrwymiad a nodir yn y Cynllun hwn o'r dyddiad cymeradwyo.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ffurf electronig yn

[www.open.ac.uk/cynllun-iaith-gymraeg](http://www.open.ac.uk/cynllun-iaith-gymraeg)

ac

[www.open.ac.uk/welsh-language-scheme](http://www.open.ac.uk/welsh-language-scheme)

neu gellir gofyn amdano o'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn 18 Heol y Tollty,  
Caerdydd CF10 1AP.

Mae'r Brifysgol Agored wedi ei chorffori gan Siarter Frenhinol (RC 000391), yn  
elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban  
(SC 038302).

Y Brifysgol Agored  
Walton Hall  
Milton Keynes  
MK7 6AA

[www.open.ac.uk](http://www.open.ac.uk)

SUP 019207

## **Cynnwys**

<b>Cyflwyniad</b> .....	3
-------------------------	---

### **Cynllunio a darparu gwasanaethau**

Polisiâu a mentrau newydd.....	4
Gwasanaethau dwyieithog.....	4
Darpariaeth addysgol.....	4
Gwasanaethau cynghori .....	6
Marchnata'r gwasanaeth.....	6
Safonau ansawdd .....	6

### **Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg**

Gohebiaeth ysgrifenedig .....	6
Cyfathrebu dros y ffôn.....	7
Cyfathrebu wyneb yn wyneb.....	7

### **Wyneb cyhoeddus y sefydliad**

Hunaniaeth gorfforaethol .....	7
Arwyddion .....	7
Cyhoeddiadau a deunydd wedi'i argraffu ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru..	7
Gwefannau.....	8
Hysbysiadau i'r wasg .....	8
Hysbysebu a gweithgareddau cyhoeddusrwydd.....	8
Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff .....	9

### **Gweithredu a monitro'r Cynllun**

Dysgu Cymraeg .....	9
Hyfforddiant galwedigaethol.....	10
Recriwtio .....	10
Trefniadau gweinyddol.....	10
Monitro .....	10
Gweithdrefn gwyno .....	11
Atodiad - Targedau .....	12

## Cyflwyniad

- 1.1 Rhoddwyd Siarter i'r Brifysgol Agored yn 1969 a derbyniodd ei myfyrwyr cyntaf yn 1971. Y Brifysgol Agored yw'r brifysgol fwyaf yn y DU, gyda dros 200,000 o fyfyrwyr ar hyn o bryd. Mae'r Brifysgol Agored yn cynrychioli 26 y cant o'r holl fyfyrwyr AU rhan amser mewn sefydliadau AU yn y DU.
- 1.2 Mae'r Brifysgol Agored yn cynnig dros 500 o gyrsiau israddedig ac ôl-raddedig yn y celfyddydau, busnes a rheoli, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, y gyfraith, mathemateg a chyfrifiadura, ieithoedd modern, gwyddoniaeth, gwyddorau cymdeithasol a thechnoleg. Mae cyrsiau'r Brifysgol Agored wedi'u cynllunio ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio yn eu cartrefi neu eu gweithleoedd, yn eu hamser eu hunain, unrhyw le yn y DU, Iwerddon, ledled Ewrop a thu hwnt yn aml. Cyflwynir cyrsiau yn Saesneg a defnyddir ystod o gyfryngau addysgu – gwerslyfrau a gynhyrchir yn arbennig, deunydd sain a fideo, gwefannau, meddalwedd gyfrifiadurol a phhecynnau arbrofi gartref. Ceir cyswllt a chymorth personol drwy diwtoriaid lleol, rhwydwaith o dros 500 o leoliadau tiwtorial yn y DU a thramor, ac ysgolion preswyl.
- 1.3 Mae cyrsiau israddedig yn agored i bawb, beth bynnag yw eu cymwysterau addysgol. Mae'r Brifysgol Agored yn ymrwymedig i gynnig mynediad llawn i'w holl gyrsiau i fyfyrwyr anabl, ac unrhyw un sydd ag anhawster dysgu penodol, ynghyd â'r cymorth a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan, cyn belled ag y bo'n bosibl, ym mhob agwedd ar fywyd y Brifysgol. Ar hyn o bryd mae gan dros 9000 o'i myfyrwyr anabledd neu ryw fath o ofyniad ychwanegol.
- 1.4 Ariennir y Brifysgol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru mewn perthynas â myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru.
- 1.5 Mae gan y Brifysgol Agored 13 o Ganolfannau ledled y DU. Lleolir y Brifysgol Agored yng Nghymru yn 18 Heol y Tollty, Caerdydd CF10 1AP. Mae'r Ganolfan Brifysgol hon yng Nghaerdydd yn gyfrifol am bob mater sy'n gysylltiedig â myfyrwyr y Brifysgol yng Nghymru, tua 6000 ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn cyflogi tua 350 o ddarlithwyr cyswllt rhan amser yng Nghymru hefyd sy'n tiwtora ac yn rhoi cymorth astudio i fyfyrwyr yn lleol. Ymgwymerir â'r gwaith o ddatblygu a chynhyrchu cyrsiau ym mhencadlys y Brifysgol yn Milton Keynes.
- 1.6 Mae Cyfarwyddwr Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau craidd i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr ledled Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys y gwasanaethau ymholi a chynghori addysgol i fyfyrwyr a'r cyhoedd, cofrestru myfyrwyr, penodi a monitro'r darlithwyr cyswllt, trefnu'r rhaglen diwtorial, a hyrwyddo delwedd a buddiannau'r Brifysgol Agored yng Nghymru.
- 1.7 Mae'r mesurau amrywiol yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn ymwneud â Chanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd a'n swyddfeydd ledled y DU wrth ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru.
- 1.8 Mae'r Cynllun hwn yn nodi safon y gwasanaeth sydd i'w ddarparu a'r mesurau y bydd y Brifysgol yn eu dilyn i ddarparu'r gwasanaethau hynny i'r cyhoedd yng Nghymru.

## **Cynllunio a darparu gwasanaethau**

### **Polisiâu a mentrau newydd**

- 2.1 Bydd unrhyw bolisiâu a mentrau newydd yn ystyried mesurau Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol Agored pan gânt eu llunio fel eu bod yn ategu'r Cynllun (Dyddiad targed: diwedd 2012). Rhoddwyd manylion llawn darpariaethau'r Cynllun i'r holl swyddogion a phwyllgorau sy'n ymwneud â'r gwaith o lunio polisiâu ac arferion y Brifysgol. Maent yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod unrhyw bolisiâu neu fentrau newydd yn unol â'r Cynllun a'u bod yn cefnogi ei egwyddorion.
- 2.2 Caiff cymal sy'n pwysleisio'r angen i ddilyn y Cynllun Iaith Gymraeg ei gynnwys yn y cylch gorchwyl ar gyfer prosiectau a rhaglenni newydd y mae'r Brifysgol yn ymgymryd â hwy a fydd yn effeithio ar y cyhoedd yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cynllun.

### **Gwasanaethau dwyieithog**

- 2.3 Mae'r Brifysgol yn darparu gwasanaeth dwyieithog yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd. Nodir manylion y ddarpariaeth o dan yr adrannau priodol isod.
- 2.4 Ategir y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd gan waith i hyrwyddo diwylliant dwyieithog yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd. Bydd staff yn parhau i gael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- 2.5 Mae cynghorwyr cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg sy'n gallu rhoi cyngor ar bob agwedd ar astudio gyda'r Brifysgol ar gael yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd.

### **Darpariaeth addysgol**

- 2.6 Caiff deunydd cwrs aml-gyfrwng y Brifysgol ei gynhyrchu a'i gyflwyno yn Saesneg. O ganlyniad, ac yn unol â fframweithiau Sicrhau Ansawdd y DU mewn Addysg Uwch, cyflawnir y rhan fwyaf o'r gwaith addysgu, asesu ac arholi drwy gyfrwng y Saesneg. Nodir hyn yn glir ym mhob un o'n prospectysau a'n deunydd cyhoeddusurwydd.
- 2.7 Mae'r Brifysgol yn aelod llawn a gweithredol o'r Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg (ac is-grwpiau amrywiol y grŵp). Fel y cyfryw, mae'n cefnogi, yn gadarnhaol ac yn adeiladol, weithgareddau yn y sector sy'n ehangu ac yn gwella'r cyfleoedd cyffredinol i astudio ar lefel addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gydnabod y bydd pob Sefydliad Addysg Uwch yn cyfrannu at hyn mewn ffyrdd gwahanol ac ar wahanol lefelau yn seiliedig ar eu priod gryfderau a galluoedd.
- 2.8 Wrth benodi darlithwyr cyswllt (y tiwtoriaid rhan amser sy'n rhoi cymorth academaidd a chymorth astudio lleol i fyfyrwyr), mae angen i Gyfarwyddwr Cymru a'i staff geisio recriwtio arbenigwyr pwnc sydd â dealltwriaeth o anghenion dysgwyr o bell ac sy'n siarad Saesneg yn rhugl.
- 2.9 Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i gynyddu cyfran y darlithwyr cyswllt sy'n siarad Cymraeg yn ei gweithlu a bydd yn adolygu ei pholisi recriwtio yng ngoleuni'r galw am ddarpariaeth Gymraeg a ganfu drwy gasglu a dadansoddi data am ddewis ieithyddol myfyrwyr. Caiff hyn ei adolygu bob blwyddyn a'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Caiff y galw am ddeunyddiau Cymraeg a chyrsiau a ddarperir yn Gymraeg ei adolygu a'i fonitro hefyd.

- 2.10 Cedwir cronfa ddata o aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru, gan gynnwys darlithwyr cyswllt, a chaiff ei diweddarau'n gyson. Mae'r Brifysgol wrthi'n datblygu cronfa ddata o staff sy'n siarad Cymraeg yn ei holl swyddfeydd hefyd. Mae'r data hwn ar gael i bob aelod o staff yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd ac mae'n rhoi trosolwg o sgiliau ieithyddol darlithwyr cyswllt. Bydd y Brifysgol yn datblygu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol (Dyddiad targed: diwedd 2012) i alluogi'r Brifysgol i roi cymorth priodol i'r myfyrwyr sy'n nodi eu bod yn dymuno cael cymorth academaidd a chymorth arall yn Gymraeg.
- 2.11 Fel arfer cynhelir tiwtorialau, a roddir gan ddarlithwyr cyswllt, yn Saesneg. Fodd bynnag, anogir y defnydd o'r Gymraeg lle mae'r grŵp cyfan o fyfyrwyr yn dymuno hyn a lle mae gan y darlithydd cyswllt y sgiliau priodol. Mae darlithwyr cyswllt yn rhoi cymorth dysgu dros y ffôn a dulliau cyfathrebu eraill hefyd ac, unwaith eto, lle mae'r myfyriwr yn dymuno hyn ac o fewn gallu'r darlithydd cyswllt, anogir y defnydd o'r Gymraeg. Lle na all tiwtor y myfyriwr roi cymorth academaidd yn Gymraeg, caiff cymorth ategol dros y ffôn gan ddarlithydd cyswllt arall sydd â sgiliau Gymraeg ei ystyried.
- 2.12 Mae'r Brifysgol Agored yn cynnig asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg (gan gynnwys aseiniadau ysgrifenedig, arholiadau, prosiectau a thesis ym mhob maes pwnc) i'w myfyrwyr ac mae'n cynnal asesiadau yn unol â dewis ieithyddol y myfyriwr. Anfonir llythyr at bob myfyriwr cofrestredig yn gofyn iddynt a ydynt yn siarad Cymraeg ac a fyddai'n well ganddynt gael eu hasesu yn Gymraeg, neu a ydynt yn siarad Cymraeg ond bod yn well ganddynt gyflwyno gwaith yn Saesneg. Mae'r Brifysgol yn sefydlu'r angen i gynnal asesiadau yn Gymraeg fel rhan o'i phrosesau cofrestru. Bydd y Brifysgol yn cyhoeddi canllawiau i bob aelod o staff a myfyriwr ar gynnal asesiadau yn Gymraeg (Dyddiad targed: Ebrill 2010).
- 2.13 Lle y mae tiwtor cymwys ar gael, caiff myfyrwyr eu dyrannu i diwtor a fydd yn gallu asesu'r gwaith yn Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Brifysgol Agored ddigon o diwtoriaid dwyieithog a/neu aelodau o staff academaidd llawn amser sy'n gallu asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle y nodwyd angen i gynnal asesiadau yn Gymraeg ac nid oes tiwtor/aseswr priodol sy'n siarad Cymraeg ar gael, caiff yr aseiniad ysgrifenedig ei gyfieithu i'r Saesneg. Gwneir y gwaith cyfieithu hwn gan gyfieithwyr cymwys sy'n gyfarwydd â'r pwnc. Cedwir cronfa ddata o'r cyfieithwyr arbenigol hyn a chaiff ei diweddarau'n gyson (Dyddiad targed: diwedd 2012).
- 2.14 Mae'r Brifysgol yn casglu data am ddewisiadau ieithyddol myfyrwyr yn ystod y broses gofrestru. Defnyddir y data hwn i gynnig cymorth academaidd a chymorth arall i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg ac i alluogi'r Brifysgol i asesu'r galw i ddatblygu'r ddarpariaeth addysgol ddwyieithog ymhellach.
- 2.15 Gyda chytundeb y cyflogwr, gellir cynnal gweithgareddau seiliedig ar waith yn Gymraeg.
- 2.16 Gellir cyfrif cyfnodau priodol o astudio drwy'r Gymraeg o dan nawdd sefydliadau addysgol eraill tuag at ddyfarniadau'r Brifysgol o dan ei threfniadau trosglwyddo credydau sefydledig. Gall y credydau neu'r pwyntiau 'CATS' a ddyfernir o gyrsiau a modiwlau o'r fath gyfrif tuag at ddyfarniadau'r Brifysgol Agored.

- 2.17 Er mwyn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo diwylliant dwyieithog yng Nghymru, bydd y Brifysgol yn datblygu deunydd ategol am ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar ffurf pecyn adnoddau a gaiff ei ddsbarthu i'n myfyrwyr yng Nghymru sy'n dilyn astudiaethau galwedigaethol priodol. Bydd y Brifysgol yn datblygu pecyn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i ddarlithwyr cyswllt sy'n addysgu ar gyrsiau gradd gwaith cymdeithasol (Dyddiad targed: diwedd 2009). Bydd y Brifysgol hefyd yn drafftio deunydd ategol pellach ar gyfer myfyrwyr galwedigaethol a darlithwyr cyswllt (Dyddiad targed: diwedd 2011) a bydd yn cyhoeddi ac yn dosbarthu'r deunyddiau hyn (Dyddiad targed: diwedd 2012).

#### **Gwasanaethau cynghori**

- 2.18 Mae'r ystod o wasanaethau cynghori a chymorth astudio a ddarperir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gellir rhoi'r cymorth hwn drwy llythyr, e-bost, dros y ffôn neu drwy ymweliad personol.

#### **Marchnata'r gwasanaeth**

- 2.19 Mae'r Brifysgol yn defnyddio ei dulliau cyfathrebu arferol gyda myfyrwyr a darpar fyfyrwyr i hysbysebu a marchnata ei gwasanaethau, gan gynnwys dewisiadau yn Gymraeg, fel y bo'n briodol. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys anfon deunydd cyhoeddusrwydd drwy'r post, gwahoddiadau i ddigwyddiadau cyhoeddusrwydd megis Digwyddiadau Agored, hysbysebion mewn papurau newydd, gwybodaeth yn ei phrosbectysau a gwybodaeth ar ei gwefan. Mae unrhyw gyhoeddiadau a deunydd hyrwyddo a gyhoeddir gan Ganolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd ar ffurf ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.
- 2.20 Mae pob myfyriwr yng Nghymru yn cael llythyr am ei ddewis iaith pan fydd yn cofrestru. Mae'r llythyr hwn yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau y mae'r Brifysgol yn eu cynnig yn Gymraeg ac mae'n gofyn i fyfyrwyr a hoffent gael eu hasesu yn Gymraeg.

#### **Safonau ansawdd**

- 2.21 Mae Penaethiaid Unedau a rheolwyr llinell yn gyfrifol am weithredu agweddau ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith ac am sicrhau bod safon y gwasanaethau a ddarperir yn gyfartal yn y ddwy iaith.

### **Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg**

#### **Gohebiaeth ysgrifenedig**

- 3.1 Croesewir gohebiaeth ysgrifenedig ac e-bost i unrhyw un o swyddfeydd y Brifysgol yn Gymraeg a Saesneg. Atebir unrhyw lythyrau a negeseuon e-bost a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg gan ddilyn yr un cyfyngiadau amser â gohebiaeth Saesneg.
- 3.2 Mae ffurflen electronig i archebu lle ar gwrs ar gael yn Gymraeg a fydd yn rhoi'r cyfle i ddarpar fyfyrwyr, y byddai'n well ganddynt gyfathrebu â'r Brifysgol yn Gymraeg, nodi eu bwriad i astudio gyda'r Brifysgol.

#### **Cyfathrebu dros y ffôn**

- 3.3 Croesewir galwadau ffôn i Ganolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd yn Gymraeg a Saesneg. Rhoddir yr hyfforddiant angenrheidiol i staff rheng flaen nad ydynt yn siarad Cymraeg i'w galluogi i ymdrin yn broffesiynol â galwyr sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys eu cyfeirio at aelodau o staff sy'n fwy abl i siarad Cymraeg os yw hynny'n briodol (Dyddiad targed: diwedd 2009)
- 3.4 Atebir galwadau ffôn a dderbynnir yn Milton Keynes neu leoliadau eraill yn Saesneg. Os yw'r galwr yn dymuno cynnal ei fusnes yn Gymraeg, cânt eu cyfeirio at aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn yr adran briodol os yw'n bosibl, neu i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd. Os na fydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, gofynnir am fanylion priodol y galwr a bydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn ei ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.
- 3.5 Mae gan bob rhif ffôn a hysbysebir yn allanol o Ganolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd negeseuon peiriant ateb dwyieithog, e.e. ar gyfer galwadau y tu allan i oriau.

#### **Cyfathrebu wyneb yn wyneb**

- 3.6 Caiff ymwelwyr â Chanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd eu cyfarch gan dderbynnnydd dwyieithog.
- 3.7 Mae cynghorwyr cwsmeriaid yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd yn croesawu ymholiadau yn Gymraeg a Saesneg.
- 3.8 Mae aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael mewn digwyddiadau cyhoeddusurwydd, megis Digwyddiadau Agored, a byddant yn ceisio cynnal y cyfarfodydd hyn yn Gymraeg, yn ôl dymuniadau'r myfyrwyr a'r darpar fyfyrwyr. Nodir y gwasanaeth Cymraeg mewn hysbysebion ar gyfer digwyddiadau.

#### **Wyneb cyhoeddus y sefydliad**

##### **Hunaniaeth gorfforaethol**

- 4.1 Mae hunaniaeth gorfforaethol y Brifysgol Agored yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog. Lle bynnag y defnyddir enw'r Brifysgol ac unrhyw wybodaeth safonol arall yng Nghymru, gan gynnwys papur pennawd, slipiau cyfarch, cardiau busnes, papur ffacs, bathodynau adnabod ac adeiladau, dangosir y wybodaeth hon ar ffurf ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd. Mae unrhyw gyfeiriadau at gyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn a chyfeiriadau yn Gymraeg a Saesneg.

##### **Arwyddion**

- 4.2 Mae pob arwydd allanol a mewnol a osodir gan y Brifysgol Agored yng Nghymru, neu ei hasiantau, yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.
- 4.3 Yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd, mae arwyddion sy'n rhoi cyfarwyddiadau, yn rhoi rhybuddion o beryglon, yn cyfarwyddo, yn gofyn am ymddygiad arbennig ac yn gwahardd yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.

#### **Cyhoeddiadau a deunydd wedi'i argraffu ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru**



- 4.4 Mae holl brosbectysau'r Brifysgol yn cynnwys gwybodaeth briodol yn Gymraeg gan gynnwys y gwasanaethau y mae'r Brifysgol yn gallu eu darparu i'r sawl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.
- 4.5 Mae pob cyhoeddiad arall sy'n rhestru cyfeiriadau Canolfannau'r Brifysgol yn nodi y gellir trin galwadau i Ganolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd yn Gymraeg neu Saesneg.
- 4.6 Mae gwahoddiadau i'r rhaglen flynyddol o Ddigwyddiadau Agored a digwyddiadau hyrwyddo a marchnata eraill yng Nghymru yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.

#### **Gwefannau**

- 4.7 Mae cyfran gynyddol o ymholiadau i'r Brifysgol yn deillio o'r rhyngwrwd. Mae gwefan sylweddol gan y Brifysgol sy'n nodi manylion holl gyrsiau, rhaglenni a chymwysterau'r Brifysgol, ynghyd â gwybodaeth i alluogi darpar fyfyrwyr i wneud penderfyniadau priodol am eu dewisiadau astudio.
- 4.8 Mae gwefan y Brifysgol Agored yng Nghymru, [www.open.ac.uk/wales](http://www.open.ac.uk/wales), yn ddwyieithog ac mae dolen 'Cymraeg' ar brif dudalen gwefan y Brifysgol Agored yn cysylltu'n uniongyrchol â hafan gwefan Gymraeg y Brifysgol Agored yng Nghymru. Caiff y wefan ei rheoli a'i diweddarau yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghymru. Caiff gwefan y Brifysgol Agored yng Nghymru a'i chynnwys eu monitro gan y Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Cymraeg) er mwyn sicrhau y cyflwynir y ddwy iaith yn gyfartal.
- 4.9 Bydd y Brifysgol yn ystyried cyfieithu ei gwe-gynnwys ymhellach ar ei phrif wefan yn [www.open.ac.uk](http://www.open.ac.uk). Bydd yn olrhain nifer yr ymwelwyr i'r wefan i flaenoriaethu tudalennau i'w cyfieithu (Dyddiad targed: diwedd 2010) a bydd yn archwilio'r costau sy'n gysylltiedig â chael fersiwn Cymraeg a Saesneg o'r tudalennau hyn (Dyddiad targed: diwedd 2011). Caiff y cynnwys iaith Gymraeg ar ein prif wefan ei gynyddu (Dyddiad targed: diwedd 2012).
- 4.10 Mae gan y Brifysgol adnodd ar-lein o'r enw *OpenLearn* yn [www.openlearn.open.ac.uk](http://www.openlearn.open.ac.uk). Nod y Brifysgol yw rhoi'r pecynnau cymorth Sgiliau Astudio yn Gymraeg ar yr adnodd hwn (Dyddiad targed: diwedd 2010). Bydd y Brifysgol hefyd yn archwilio ymhellach i elfennau dethol o gynnwys OpenLearn i'w gyfieithu (Dyddiad targed: diwedd 2010).

#### **Hysbysiadau i'r wasg**

- 4.11 Mae pob datganiad i'r wasg a gyhoeddir gan y Brifysgol Agored yng Nghymru yn ddwyieithog.

#### **Hysbysebu a gweithgareddau cyhoeddusrwydd**

- 4.12 Mae hysbysebion yn y cyfryngau Cymraeg yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.
- 4.13 Mae pob deunydd cyhoeddusrwydd a marchnata y bwriedir ei ddefnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.

## **Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff**

- 4.14 Mae pob swydd ddisgrifiad a hysbyseb yn gwbl ddwyieithog ar ein gwefan. Bydd pob hysbyseb recriwtio yn y wasg yng Nghymru yn ddwyieithog hefyd gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd. Lle y mae swydd yn nodi bod siaradwr Cymraeg yn hanfodol, bydd hysbysebion recriwtio ym mhob cyhoeddiad o'r wasg yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.
- 4.15 Mae seremoni raddio flynyddol y Brifysgol yng Nghaerdydd yn cynnwys cyhoeddiadau yn Gymraeg.

## **Gweithredu a monitro'r Cynllun**

### **Dysgu Cymraeg**

- 5.1 Dim ond nifer fach o staff y Brifysgol Agored sy'n siarad Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf wedi'u lleoli yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd, gydag ychydig o siaradwyr Cymraeg ym mhencadlys y Brifysgol yn Milton Keynes. Caiff pawb o fewn y sefydliad wybod pwy sy'n siarad Cymraeg er mwyn hwyluso rhywfaint o gyswllt rhyng-adrannol. Cyhoeddir rhestr o staff Cymraeg eu hiaith ar fewnwyd y staff (Dyddiad targed: diwedd 2009). O ystyried natur arbenigol cyfadrannau academaidd, mae hyd yn oed llai o aelodau o staff ar gael sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae staff unedau academaidd yn cyfathrebu'n llai aml â'r cyhoedd. Anogir unrhyw aelodau o staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg i wneud hynny.
- 5.2 Ers Hydref 2008, mae'r Brifysgol Agored wedi cynnal cwrs Cymraeg i ddechreuwr. Anogir aelodau o staff ym mhob rhan o'r Brifysgol i gofrestru ar y cwrs hwn. Nod y Brifysgol yw annog pum aelod o staff yng Nghymru i gofrestru ar y cwrs hwn (Dyddiad targed: diwedd 2012).
- 5.3 Mae hyfforddiant iaith yn chwarae rhan bwysig o hyd o ran cynyddu nifer yr aelodau o staff sy'n gallu gweithio'n hyderus yn Gymraeg, a chynigir cyfleoedd i staff Canolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd ddilyn cyrsiau priodol. Yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd, caiff pob aelod newydd o staff, fel rhan o'r cyfnod sefydlu, a staff presennol, drwy'u harfarniadau blynyddol, eu hannog i ddatblygu sgiliau Cymraeg - o sgiliau sylfaenol i lefel uwch.
- 5.4 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i ddiwallu unrhyw anghenion hyfforddi a nodir. Caiff hyfforddiant ac adnoddau eu blaenoriaethu yn y lle cyntaf ar gyfer staff rheng flaen yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn uniongyrchol.
- 5.5 Mae adnoddau dysgu Cymraeg ar gael i staff y Brifysgol.
- 5.6 Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol darlithwyr cyswllt rhan amser, a byddai'n annog y defnydd o sgiliau Cymraeg yn eu gwaith i'r Brifysgol. Gall darlithwyr cyswllt ddefnyddio'r hawl i hepgor ffioedd astudio a roddir gan y Brifysgol er mwyn astudio ein cwrs Cymraeg, *Croeso* a chânt eu hannog i wneud hynny.
- 5.7 Yn dilyn awdit o sgiliau Cymraeg ymhlith aelodau o staff, mae'r Brifysgol yn cadw cronfa ddata sy'n cynnwys gwybodaeth am sgiliau Cymraeg aelodau o staff ac mae'n ei diweddarau. Caiff ei chadw yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

- 5.8 Gall aelodau o staff yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg yn eu gwaith. Anogir y defnydd o'r Gymraeg ar lafar yn arbennig, ac yn ysgrifenedig lle y bo'n ymarferol, yn enwedig ymhlith y sawl sy'n dysgu'r iaith.

#### **Hyfforddiant galwedigaethol**

- 5.9 Rhoddir ystyriaeth i ddarparu hyfforddiant galwedigaethol i staff drwy gyfrwng y Gymraeg lle y nodir bod galw amdano.

#### **Recriwtio**

- 5.10 Cyn i swydd wag gael ei hysbysebu yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd, bydd Cyfarwyddwr Cymru, y rheolwr llinell perthnasol a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cynllunio ac Adnoddau) yn asesu rhinweddau penodi siaradwr Cymraeg i'r swydd. Bydd y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol sy'n cael ei datblygu gan y Brifysgol yn llywio'r penderfyniadau recriwtio hyn (Gweler 2.10).
- 5.11 Caiff rhestr gyfredol o swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ei chadw a'i hadolygu.
- 5.12 Caiff datganiad ei gynnwys ym mhob gwahoddiad i ddod i gyfweiliadau ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol i egluro y gellir cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg a Saesneg. Lle mae'r Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer y swydd, bydd y panel cyfweld yn profi hyfedredd yr ymgeiswyr mewn Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.

#### **Trefniadau gweinyddol**

- 5.13 Datblygwyd y Cynllun hwn i ddechrau gan grŵp bach yn cynrychioli o unedau perthnasol yn y Brifysgol gydag Ysgrifennydd y Brifysgol yn cadeirio. Ers hynny bu'n destun ymgynghoriad mewnol eang ac ystyriwyd y sylwadau a gafwyd yn y fersiwn terfynol hwn.
- 5.14 Mae'r Cynllun wedi derbyn cefnogaeth lawn Cyngor y Brifysgol Agored, ynghyd â'r mesurau a roddwyd ar waith i fonitro ei lwyddiant a'i gynnydd fel y nodir yn yr adran hon.
- 5.15 Rhoddwyd copi o'r Cynllun i bob aelod o staff yng Nghymru, Pennaeth pob Uned yn y Brifysgol ac ysgrifenyddion holl bwyllgorau ffurfiol y Brifysgol. Mae'r Cynllun ar gael i bob aelod o staff drwy ein mewnwyd hefyd.
- 5.16 Mae sefydliadau lle cynhelir tiwtorialau neu ysgolion preswyl y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cael copi o'r Cynllun.

#### **Monitro**

- 5.17 Mae'r Is-Ganghellor yn gyfrifol am gynnwys y Cynllun, ei weithredu a'i ddatblygu, yn ogystal â monitro ei gynnydd. Mae Penaeithiad Unedau yn gyfrifol am ei weithredu'n llwyddiannus o ddydd i ddydd o fewn eu Hunedau. Mae Cyfarwyddwr Cymru yn gyfrifol am roi ffocws sefydliadol mewnol i gyfathrebu, ymholiadau a sylwadau'n ymwneud â'r Cynllun, drwy staff priodol yng Nghanolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd.
- 5.18 Bydd yr Is-Ganghellor yn cyflwyno adroddiad blynyddol sy'n monitro cynnydd y Cynllun i Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn derbyn eu harsylwadau ac argymhellion.

- 5.19 Ymgynghorir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn gwneud unrhyw ddiwygiadau neu newidiadau i'r Cynllun ac ni chaiff y Cynllun ei newid heb ganiatâd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Caiff y Cynllun ei adolygu'n llawn dair blynedd ar ôl ei weithredu a chaiff unrhyw newidiadau arfaethedig eu trafod gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 5.20 Cynhelir archwiliad llawn o'r Cynllun gan Ganolfan y Brifysgol yng Nghaerdydd. Bydd canlyniadau'r archwiliad yn dylanwadu ar unrhyw ddiwygiadau a wneir i'r Cynllun fel y digwyddodd yn 2009 (Dyddiad targed: diwedd 2012).

#### **Gweithdrefn gwyno**

- 5.21 Mae'r Brifysgol yn gobeithio na fydd yn rhoi achos i gwyno, a bydd yn monitro pa mor dda y mae'n bodloni ei hymrwymadau yn y Cynllun hwn yn barhaus. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn am wasanaethau'r Brifysgol mewn perthynas â'r Cynllun hwn at Gyfarwyddwr Cymru yn y Brifysgol Agored yng Nghymru, 18 Heol y Tollty, Caerdydd CF10 1AP.
- 5.22 Mae fersiwn Cymraeg o weithdrefn gwyno'r Brifysgol ar gael ar wefan y Brifysgol ynghyd â fersiwn Saesneg. Os na fydd yr achwynydd yn fodlon ar y canlyniad, yna gellir mynd â'r mater at Fwrdd yr Iaith Gymraeg neu Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru.
- 5.23 Mae'r Brifysgol Agored yn croesawu awgrymiadau hefyd ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn Gymraeg. Dylid gwneud unrhyw awgrymiadau o'r fath i Gyfarwyddwr Cymru a fydd yn eu hystyried fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r ffordd y mae'r Brifysgol yn darparu ei gwasanaethau yn Gymraeg.

## Atodiad - Targedau

Rhif pwynt	Targed	Dyddiad targed	I'w gwblhau erbyn
2.1	Bydd pob polisi a menter newydd yn ystyried Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol Agored	Diwedd 2012	Ysgrifennydd y Brifysgol
2.9	Bydd y Brifysgol yn adolygu ei bolisi recriwtio yn wyneb y galw am ddarpariaeth Gymraeg a geir drwy gasglu a dadansoddi data ar ddewis iaith myfyrwyr	Yn flynyddol tan ddiwedd 2012	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cynllunio ac Adnoddau Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Iaith Gymraeg)
2.10	Datblygu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol	Diwedd 2012	Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Iaith Gymraeg), Cyfarwyddwr, Cymru Adnoddau Dynol
2.12	Cyhoeddi a dosbarthu canllawiau asesu Cymraeg	Ebrill 2010	Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Iaith Gymraeg) Pennaeth Asesu
2.13	Cwblhau'r gronfa ddata o gyfieithwyr pwnc arbenigol	Diwedd 2012	Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Iaith Gymraeg)
2.17	Pecyn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i diwtoriaid graddau gwaith cymdeithasol	Diwedd 2009	Tiwtor Staff (Gwaith Cymdeithasol)

2.17	Deunydd ategol drafft ar gyfer myfyrwyr galwedigaethol a darlithwyr cyswllt	Diwedd 2011	Tiwtoriaid Staff Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Iaith Gymraeg) Swyddog Ehangu Mynediad
3.3	Darperir hyfforddiant i staff rheng flaen nad ydynt yn siarad Cymraeg	Diwedd 2009	Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Iaith Gymraeg)
4.9	Olrhain ymweliadau â'r wefan i flaenoriaethu tudalennau i'w cyfieithu	Diwedd 2010	Cyfathrebu
4.9	Archwilio costau cyfieithu	Diwedd 2011	Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Iaith Gymraeg)
4.9	Cynyddu'r cynnwys Cymraeg ar brif wefan y Brifysgol	Diwedd 2012	Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Iaith Gymraeg) Cyfathrebu
4.10	Cyfieithu pecynnau cymorth sgiliau astudio ac elfennau dethol o wefan <i>OpenLearn</i>	Diwedd 2010	Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Iaith Gymraeg) Cyfathrebu
5.1	Rhestr o staff sy'n siarad Cymraeg i'w chyhoeddi ar fewnrwyd y staff	Diwedd 2009	Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Iaith Gymraeg)
5.2	Nod y Brifysgol yw annog pum aelod o staff yng Nghymru i gofrestru ar gwrs Cymraeg i newydd-ddyfodiaid	Diwedd 2012	Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Iaith Gymraeg) Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rheolwyr llinell yng Nghymru
5.20	Cynhelir archwiliad llawn o'r	Diwedd 2012	Rheolwr

	Cynllun yn 2012		Gwasanaethau Myfyrwyr (Iaith Gymraeg) Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cymru
--	-----------------	--	--

Mae'r Brifysgol Agored wedi ei chorffori gan Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestrdedig yn yr Alban (SC 038302).